

# STRATEGAETH CREU LLEOEDD PORTHCAWL

Mai 2022







# CYNNWYS

## 1.0 CYFLWYNIAD

## 2.0 CYD-DESTUN

- 2.1 Glannau Porthcawl
- 2.2 Cyd-destun Cynllunio
- 2.3 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- 2.4 Y Gymdogaeth 20 Munud
- 2.5 Pandemig Covid 19
- 2.6 Argyfwng Hinsawdd
- 2.7 Argyfwng Tai
- 2.8 Ymgymhori Cymunedol

## 3.0 THEMAU A STRATEGAETHAU ALLWEDDOL

- 3.1 Cysylltiad
- 3.2 Mannau Agored
- 3.3 Cymysgedd o ddefnyddiau, dosbarthiad a maint
- 3.4 Cynaliadwyedd

## 4.0 ARDALOEDD DDATBYGIEDIG Y DYFODOL

- 4.0 Trosolwg
- 4.1 Seilwaith Tir Trefol a'r Coridor Gwyrdd
- 4.2 De 'Salt Lake'
- 4.3 Canol 'Salt Lake'
- 4.4 Gogledd 'Salt Lake'
- 4.5 Hillsboro
- 4.6 Gorllewin 'Sandy Bay'
- 4.7 Dwyrain 'Sandy Bay'
- 4.8 Adolygiad Cryno yn Erbyn Nodau Allweddol

## 5.0 CAMAU NESAF

Austin-Smith:Lord LLP

**Caerdydd**

Bryste  
Glasgow  
Lerpwl  
Llundain

one Dunleavy Drive, Caerdydd, CF11 0SN

+44 (0)29 2022 5208  
cardiff@austinsmithlord.com  
www.austinsmithlord.com





## 1.0 CYFLWYNIAD

# 1.0 CYFLWYNIAD

Pwrpas Strategaeth Creu Lleoedd Porthcawl yw darparu fframwaith ar gyfer datblygu Glannau Porthcawl ar gyfer y tymor byr, tymor canol a hir dymor.

Mae Creu Lleoedd yn tynnu ar botensial ardal i greu ardaloedd datblygedig a lleoedd cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl. Mae Creu Lleoedd yn ychwanegu gwerth cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol at gynigion datblygu sy'n arwain at fuddion sy'n mynd y tu hwnt i ffin datblygiad ffisegol.

Mae trefi glan môr ledled y DU yn wynebu heriau sylweddol i'w hyfywedd economaidd. Mae gan Borthcawl y fantais o arfordir a chadwyn o draethau blaenllaw, gyda darn sylweddol o dir, sydd yn cysylltu canol y dref yn uniongyrchol â thraeth tywodlyd gwych Sandy Bay. Mae yma gyfle i sicrhau datblygiad trawsnewidiol a all wneud Porthcawl y dyfodol yn lle deniadol i fyw, gweithio, ymweld a buddsoddi ynddo.











## 2.0 CYD-DESTUN

## 2.1 GLANNAU PORTHCAWL

Mae'r Strategaeth Creu Lleoedd hon yn canolbwyntio ar 32 ha o dir i'r gorllewin o Ganol Tref Porthcawl, y cyfeirir ato hefyd fel Glannau Porthcawl. Dangosir yr ardal ffocws gan y ffin llinell goch gyferbyn, sy'n ymestyn mewn cromlin o amgylch Sandy Bay ac yn cynnwys ardaloedd a elwir yn Hillsboro, Llyn Heli, Parc Griffin, Coney Beach, hen Monster Park, Sandy Bay (hen faes carafanau), Ysgol Gynradd Newton a'r Twyni Relic.

Er ei bod yn canolbwyntio ar ardal y Glannau, mae'r Strategaeth Creu Lleoedd hon yn rhoi ystyriaeth bwysig i effeithiau a buddion posibl i ardal ehangach Porthcawl, ei chyffiniau, Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chymru.



## 2.2 CYD-DESTUN CYNLLUNIO


Mae'r Strategaeth Creu Lleoedd wedi ei datblygu yng nghyd-destun cysylltiedig Polisiâu Cynllunio, Cynllun Datblygu Lleol a'r Canllawiau Cynllunio Atodol. Mae hefyd wedi ei llywio gan ymgynghoriad ar wahân ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

Gyda golwg yn benodol ar y cyd-destun polisi cynllunio presennol, mae'r safle wedi'i ddyrannu ar hyn o bryd ar gyfer datblygiad cymysg o fewn y Cynllun Datblygu Lleol presennol. Mae Polisi PLA3 y Cynllun Lleol Mabwysiedig yn nodi amcanion y Cyngor ar gyfer adfywio defnydd cymysg o safleoedd tir llwyd nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol ac yn nodi Ardal Adfywio Porthcawl fel rhan arwyddocaol o'r strategaeth hon trwy ei dynodiad fel safle PLA3(8). Cefnogir y dynodiad hwn gan Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) mabwysiedig, y cyfeirir ato'n aml fel CCA Prosiect y Saith Bae - Glannau Porthcawl.

Yn ogystal â'r dynodiad yn y Cynllun Lleol Mabwysiedig, mae'r safle wedi'i nodi fel Safle Datblygu Strategol Defnydd Cymysg yn Nogfen Ymgynghori Cyhoeddus Cynllun Datblygu Lleol Cynllun Adneuo Newydd. Yn benodol, mae Polisi PLA1 o Ddogfen Ymgynghori Cyhoeddus Cynllun Datblygu Lleol Cynllun Adneuo Newydd yn nodi bod y Tir yng Nglannau Porthcawl wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygiad defnydd cymysg cynhwysfawr, a arweinir gan adfywio a fydd yn darparu tua 1,115 o gartrefi (gan gynnwys 30% / 335 o unedau o dai fforddiadwy), yn cynnwys ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg un dosbarth mynediad newydd, estyniad bloc o bedair ystafell ddosbarth yn yr ysgol gynradd cyfrwng Saesneg bresennol, siop fwyd newydd, cyfleusterau hamdden, terminws bysiau, man agored cyhoeddus, a manau cyfleusterau cymunedol a defnyddiau masnachol priodol.

Yn ogystal â statws cynllunio'r safle ar lefel leol, mae cefnogaeth sylweddol i'r adfywio arfaethedig ar lefel polisi cenedlaethol. Mae Polisi Cynllunio Cymru (PPW) yn cefnogi blaenoriaethu safleoedd tir llwyd mewn lleoliad addas at ddibenion adfywio yn amodol ar ystyriaethau polisi eraill.

O'i hystyried yn y cyd-destun polisi a gweithdrefnol a amlinellir uchod, mae creu'r Strategaeth Creu Lleoedd hon yn gam pwysig wrth symud ymlaen i gyflawni datblygiad ar draws Ardal Adfywio Glannau Porthcawl, gan wireddu amcanion adfywio'r Cyngor ac amcanion creu lleoedd cenedlaethol ehangach Llywodraeth Cymru.



## 2.3 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

Mae polisi ac arweiniad y Llywodraeth hefyd yn llywio'r Strategaeth Creu Lleoedd. Yn arbennig, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n sbarduno gwellhad cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd trwy rwymedigaeth gyfreithiol. Mae'n rhaid ymgeisio i gyflawni bob un o'r saith nod llesiant.

Drwy gydol y broses Creu Lleoedd, mae'r strategaethau sy'n dod i'r amlwg wedi'u hadolygu yn erbyn y nodau hyn ac mae tabl adolygu cryno wedi'i gynnwys yn Adran 4.8.



**CYMRU  
LEWYRCHUS**



**CYMRU  
GYDNERTH**



**CYMRU SY'N  
FWY CYFARTAL**



**CYMRU IACHACH**



**CYMRU O  
GYMUNEDAU  
CYDLYNUS**



**CYMRU A  
DIWYLLIANT  
BYWIOG LLE MAE'R  
GYMRAEG YN  
FFYNU**



**CYMRU SY'N  
GYFRIFOL AR  
LEFEL FYD-EANG**

## 2.4 Y GYMDOGAETH 20 MUNUD


Mae'r syniad o'r 'gymdogaeth 20 munud' wedi ennyn diddordeb ledled y byd, yn enwedig ers i bandemig COVID-19 dynnu sylw at bwysigrwydd bywioldeb ein hardal, ac mae'n cyflwyno nifer o fuddion gan gynnwys rhoi hwb i economïau lleol, iechyd a llesiant pobl, cynyddu cysylltiadau cymunedol, a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Dylid dychmygu'r datblygiad hwn fel darn mewn jig-so ehangach sy'n darparu cymdogaeth gyflawn, gryno a chysylltiedig, lle gall pobl ddiwallu eu hanghenion bob dydd o fewn taith gerdded fer neu siwrne feic.

Rhaid i'r datblygiad hefyd weithio dros dwristiaeth a phlethu anghenion yr ymwelwyr ynghyd â diwallu anghenion trigolion parhaol.

Mae'r dull hwn yn cyd-fynd yn dda â Saith Nod Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae adolygiad cryno o'r strategaethau creu lleoedd allweddol yn erbyn egwyddorion Cymdogaeth 20 Munud wedi'i gynnwys yn Adran 4.8.



## 2.5 PANDEMIG COVID-19

Mae'r pandemig wedi newid ein hagwedd at fyw yn barhaol gyda sifftiau hirdymor o ran y cydbwysedd bywyd/gwaith a newidiadau i'r ffordd yr ydym yn meddiannu ein gweithleoedd a'n cartrefi. I lawer, mae'r cartref hefyd yn lle i weithio naill ai'n llawn amser neu drwy drefniadau gweithio hyblyg. I wneud hyn yn gyffredinol mae angen i'n cartrefi fod yn fwy ac yn fwy hyblyg gyda mynediad i fand eang cyflym. Mae'r galw am leoedd gwaith cymdeithasol, cydweithredol a rennir wedi cynyddu i adlewyrchu ffyrdd newydd o weithio, a'r galw wedi cyflymu gan y pandemig.

Mae cyfnodau clo hefyd wedi arwain at fwy o werth yn cael ei roi ar fynediad i awyr iach, mannau agored a mannau gwyrdd gydag ymarfer corff yn yr awyr agored, cerdded a beicio yn dod yn fwyfwy poblogaidd.

Mae datblygiad Glannau Porthcawl yn cynnig cyfle i 'Adeiladu'n Ôl yn Well' drwy godi safonau lle ac ansawdd, cyflwyno teipolegau cartref newydd sy'n hwyluso gweithio gartref yn iawn ac integreiddio mannau agored, bioamrywiaeth a natur o ansawdd uchel sy'n hygyrch i'r cyhoedd.



## 2.6 ARGYFWNG HINSAWDD

Ar 29 Ebrill 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yn ffurfiol Argyfwng Hinsawdd yng Nghymru gan danlinellu her newid yn yr hinsawdd sy'n bygwth ein hiechyd, ein heconomi, ein seilwaith a'n hamgylchedd naturiol.

Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei bod yn benderfynol o sicrhau economi carbon isel ar yr un pryd â gwneud ein cymdeithas yn decach ac yn iachach gan gydnabod mai dim ond drwy weithredu ar y cyd a hwylusir gan y llywodraeth mewn rôl ganolog y gellir cyflawni hyn. Cydnabuwyd eisoes bod deddfwriaeth datblygu cynaliadwy ac amgylcheddol Cymru yn arwain y byd a nododd Llywodraeth Cymru weledigaeth glir i ddefnyddio'r ddeddfwriaeth honno i gyflymu'r newid.

Bydd Glannau Porthcawl yn cael ei ddatblygu o fewn y fframwaith cynhwysfawr o ddeddfwriaeth flaengar a nodir ac mae'r Strategaeth Creu Lleoedd hon wedi cydnabod yn arbennig Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a nodir yn adran 2.3, fel dogfen arweiniol a meincnod.

Mae ymgynghoriadau wedi cadarnhau dymuniad y cyhoedd i ragori ar gydymffurfiaeth syml â deddfwriaeth ac i fanteisio'n llawn ar y cyfle i wthio ymhellach gyda dylunio cynaliadwy, yn arbennig lleihau carbon ac ynni.



## 2.7 ARGYFWNG TAI

Er bod yr ymgynghoriad, yn ddisgwyliedig, wedi datgelu amrywiaeth o safbwyntiau'r cyhoedd ynghylch adeiladu cartrefi newydd, mae cydnabyddiaeth aruthrol o'r angen i ddarparu cartrefi newydd ym Mhorthcawl ar gyfer pobl Porthcawl a chenedlaethau'r dyfodol. Dylai'r cartrefi hyn gynnwys ystod eang o feintiau a theipolegau a chynnwys nifer sylweddol o gartrefi fforddiadwy gydag ystod o ddeiliadaethau.

Dylid cymryd camau i sicrhau bod cartrefi newydd yn cyfrannu'n wirioneddol at ddiwallu'r galw am dai ac nad ydynt yn cael eu colli i fod yn 'ail gartrefi' fel sy'n gallu digwydd mewn lleoliadau glan môr poblogaidd a deniadol.

Er bod yna frys i ddarparu cartrefi newydd, mae angen iddynt fod wedi'u dylunio'n dda a'u hadeiladu'n dda, o faint a hyblygrwydd sy'n caniatáu newidiadau i ffordd o fyw preswylwyr a'r ffordd y maen nhw'n heneiddio er mwyn meithrin cymunedau cryfach, hirdymor. Dylent hefyd fod yn hynod gynaliadwy gydag ôl traed carbon isel ac ynni isel.

Cadarnhaodd ymgynghoriadau gefnogaeth i strategaeth ar gyfer gosod mwy o gartrefi newydd yn ardal ddwyreiniol y datblygiad, gan ddod yn fwy cydgysylltiedig â defnyddiau masnachol a hamdden tuag at ganol y dref. Dylai datblygiadau tai newydd fod yn hynod gyfeillgar i gerddwyr a beicwyr a theimlo'n groesawgar, gan gynnwys tirwedd feddal, ardaloedd agored a mannau chwarae.



## 2.8 YMGYNGHORI CYMUNEDOL


Er mwyn datblygu'r Strategaeth Creu Lleoedd hon, ymgynghorwyd ag ystod eang o bobl er mwyn casglu syniadau, safbwyntiau a barn. Gosodwyd nifer o bynciau i helpu i ysgogi a fframio sgysiaid gyda grwpiau rhanddeiliaid allweddol trwy sesiynau ar-lein a'r cyhoedd trwy arddangosfa deuddydd gyda swyddogion yn bresennol, arddangosfa gyhoeddus awyr agored ac ymgynghoriad ar y we.

Roedd grwpiau rhanddeiliaid ffurfiol yn cynnwys:

- Ysgol Gyfun Porthcawl
- Ymddiriedolaeth Ddinesig Porthcawl
- Cymru Cynaliadwy
- Cyngor Tref Porthcawl
- Llais i Ddyfodol Porthcawl
- Parkdean Resorts (Gweithredwyr Maes Carafanau Bae Trecco)
- Teulu Evans (perchnogion tir yn yr ardal adfywio a gweithredwyr Ffair Hwyl Coney Beach)

Mynychodd dros 1000 o aelodau'r cyhoedd yr arddangosfa ddeuddydd ym mis Tachwedd 2021 gan ddarparu safbwyntiau ac adborth amser real gwerthfawr yn ogystal â thua 150 o ymatebion ysgrifenedig ffurfiol. Mae graddau ymgysylltu â'r cyhoedd yn tanlinellu arwyddocâd datblygiad Glannau Porthcawl ac awydd y gymuned i helpu i lunio'r dyfodol trwy Greu Lleoedd.

Er bod amrywiaeth naturiol o safbwyntiau, roedd llawer o feysydd gyda safbwyntiau cyffredin ac o gefnogaeth mewn egwyddor. Mae'r Strategaeth Creu Lleoedd wedi ymateb yn uniongyrchol i'r ymgynghoriadau, gan atgyfnerthu'r syniadau a'r cysyniadau hynny a dderbyniodd lefelau uchel o gefnogaeth a newid meysydd a syniadau eraill yn sylweddol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i Ganol Llyn Halen lle mae'r Strategaeth Creu Lleoedd derfynol yn cynnig llai o ffurf adeiledig o blaid creu mwy o fannau agored cyhoeddus a chyfleoedd ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau hamdden ffurfiol ac anffurfiol ochr yn ochr â'r defnyddiau llawr gwaelod amgylchynol arfaethedig.









## 3.0 THEMÂU A STRATEGAETHAU ALLWEDDOL

Mae pedair Thema Allweddol wedi'u nodi fel rhai hanfodol i lwyddiant Glannau Porthcawl yn y dyfodol a datblygwyd Prif Strategaethau, wedi'u llywio gan ymgynghoriad, i weithredu fel fframwaith ar gyfer datblygiad yn y dyfodol.

## 3.1 CYSYLLTEDD

Gan nad oes gan Borthcawl orsaf reilffordd, mae'n wynebu her arbennig oherwydd goruchafiaeth ceir. Yn wir, yn ystod y tymor brig ac ar y penwythnosau, ceir wedi'u parcio sydd amlycaf yn llawer o'r ardal ddatblygu. Er bod y gallu i yrru i Lyn Halen a pharcio yn cael ei ystyried yn gyfleus gan rai, mae'n anfodus yn weledol, yn methu â chreu argraff briodol wrth gyrraedd ac yn sterileiddio ardal fawr o dir, yn union ar lan y môr a allai ddarparu budd llawer mwy ac ehangach i ddyfodol y dref. Mae hyn, wrth gwrs, yn ychwanegol at effaith amgylcheddol cerbydau tanwydd petrol a disel.

Nid oes amheuaeth bod yn rhaid i unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol geisio mynd i'r afael â'r mater hwn tra'n cydnabod y cymorth hanfodol sydd ei angen ar raddfa ehangach trwy wella gwasanaethau bysiau, cynlluniau parcio a theithio posibl, mentrau rhannu ceir ac ati.

Cadarnhaodd ymgynghoriad awydd cyffredinol i leihau goruchafiaeth y car a dibyniaeth arno. Hyd yn oed gyda'r symudiad i gerbydau trydan sydd ar y gweill, maent yn peryglu ansawdd yr amgylchedd a chyfleoedd i bobl fwynhau teithio llesol neu fannau agored. Mae yna hefyd realaeth bod yn rhaid parhau i ddarparu ar gyfer cerbydau, yn enwedig yn y tymor byr tra bod newid mewn dulliau teithio yn digwydd.


Dylai datblygiadau newydd ganolbwyntio ar symudiadau cerddwyr a beicwyr, gan hyrwyddo Teithio Llesol. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy ddarparu rhwydwaith cynhwysfawr o lwybrau cerdded a beicio clir, hawdd eu defnyddio o ansawdd uchel trwy gydol y datblygiad a chysylltu â'r dref a'r arfordir y tu hwnt.



# 3.1 CYSYLLTEDD

## PRINCIPAL STRATEGIES:

- 1 Darparu maes parcio aml-lawr ar Hillsboro i ddarparu ar gyfer anghenion twristiaid a phreswylwyr.
- 2 Symud cerbydau o'r Promenâd Dwyreiniol ac eithrio cerbydau gwasanaethu cyfyngedig.
- 3 Creu cyfleuster o ansawdd uchel ar gyfer cyrraedd ar fws, yn gysylltiedig â llogi beiciau a chyfleusterau cymunedol.
- 4 Ymgorffori cyfleoedd gwefru cerbydau trydan ym mhob rhan o'r datblygiad.
- 5 Lleihau nifer y lleoedd parcio a ddarperir yn yr ardaloedd datblygu islaw'r safonau presennol er mwyn hyrwyddo teithio mwy llesol a gwyrdach.
- 6 Gwella llwybrau Teithio Llesol a blaenoriaethu cerddwyr a beicwyr trwy gydol y datblygiad cyfan.
- 7 Creu cysylltiadau cryfach i gerddwyr a beicwyr rhwng canol y dref a'r arfordir, yn enwedig drwy ymestyn Stryd y Doc fel llwybr Teithio Llesol.
- 8 Sicrhau bod y datblygiad cyfan yn agored i gerddwyr a beicwyr ac yn hawdd i'w lywio.
- 9 Agor ardaloedd datblygu Sandy Bay trwy ffordd fynediad newydd ar gyfer cerbydau a Theithio Llesol ac atal mynediad i gerbydau i'r ardaloedd datblygu newydd o Mackworth Road, Sandy Lane a Rhych Avenue.
- 10 Dargyfeirio mynediad i gerbydau i High Tide oddi ar Mackworth Road a Sandy Lane i'r ffordd fynediad newydd.



## 3.2 MANNAU AGORED

Mae pandemig Covid 19 wedi dod â buddion iechyd a llesiant mynediad i fannau agored a mannau gwyrdd i'r amlwg yn glir. Bydd gan drigolion ac ymwelwyr â'r datblygiad newydd ystod eang o ddisgwyliadau ac anghenion o ran mannau agored, o eistedd yn dawel a myfyrdod i ymarfer corff egniol a chwaraeon arbenigol. Gall rhai o'r gweithgareddau hyn ddefnyddio adnoddau naturiol yr ardal fel y môr, traeth, twyni tywod neu fan heulog cysgodol gyda golygfa, tra bydd eraill angen gosodiadau, traciau ac offer arbenigol.

Mae rhai gweithgareddau awyr agored angen lle bach a rhai angen mannau mwy. Os darperir ar gyfer pob un yn unigol ac ar wahân, gall y galw am ofod gymryd y rhan fwyaf, os nad y cyfan, o'r gofod sydd ar gael yn gyflym. Mae hynny'n awgrymu bod angen creu mannau amldefnydd, hyblyg ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau ar wahanol adegau, gyda darpariaeth ar gyfer rhai o'r chwaraeon mwy, arbenigol mewn mannau eraill yn y dref neu'r rhanbarth.

Mae ymgynghoriad yn awgrymu y dylid creu mannau agored trwy gydol y datblygiad gydag ystod o nodweddion o fannau cyhoeddus hyblyg, caled pob tywydd i fannau gwyrdd meddalach. Dylai fod ystod o raddfeydd o fannau llai o faint i fannau mwy sy'n gallu cynnal cynulliadau a digwyddiadau awyr agored ac mae cefnogaeth i gysylltu'r mannau hyn â'i gilydd, i'w profi ar droed neu ar feic. Dylai rhai mannau agored ddarparu cysgod rhag y gwynt a'r glaw, naill ai fel nodwedd barhaol neu symudol.

Er bod dosbarthiad mannau agored yn bwysig ar raddfa'r datblygiad cyfan, cadarnhaodd ymgynghoriadau dymuniad cryf i gael llawer o fannau agored wedi'u lleoli o amgylch Llyn Halen yn ymwneud yn agos â chyrraedd, canol y dref a mannau agored presennol o amgylch y marina a'r Rhodfa Ddwyreiniol.



## 3.2 MANNAU AGORED

### PRIF STRATEGAETHAU:

- 1 Creu ardal sylweddol o dir cyhoeddus hyblyg o ansawdd uchel ar hyd Llyn Halen a'r Rhodfa Ddwyreiniol i ddarparu ar gyfer ystod eang o weithgareddau hamdden awyr agored, yn rhannol barhaol, yn rhannol dros dro eu natur. Gall gweithgareddau gynnwys marchnadoedd, ffeiriau, arddangosfeydd a gwyliau, manwerthu dros dro, perfformiadau, sinema awyr agored, golff mini, stondinau ffair a reidiau.
- 2 Cysylltu'r marina presennol a'r Cosy Corner â'r datblygiad newydd trwy fannau cyhoeddus o ansawdd uchel, gan ddarparu manau cyfarfod, eistedd a mwynhau'r lleoliad a gweithgareddau, gyda chefnogaeth caffis, cyfleusterau hamdden a chymunedol yn y datblygiad newydd.
- 3 Darparu rhai ardaloedd uchel o ofod sy'n hygyrch i'r cyhoedd er mwyn sicrhau'r mwynhad mwyaf posibl o'r golygfeydd allan tuag at y môr.
- 4 Pontio o ganol tref drefol brysur, wedi'i thirlunio'n galed, i fannau agored helaeth y traeth a Thwyni Relic.
- 5 Gwella Parc Griffin a chreu cyswllt gwyrdd trwy'r cyn Barc Monster i'r Twyni Relic.
- 6 Creu amrywiaeth o fannau gwyrdd o barc ffurfiol i goedwig wyllt ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau a all gynnwys chwarae â chyfarpar, campfa awyr agored, llwybrau ymarfer corff, llwybrau neu draciau beicio, bowls, tenis, chwaraeon dros dro dan oruchwyliaeth fel saethyddiaeth.
- 7 Sicrhau bod manau gwyrdd a choed mewn datblygiadau newydd.
- 8 Galluogi preswylwyr i fwynhau rhywfaint o amwynder preifat a diogelwch wrth gadw'r datblygiad yn agored ac yn hygyrch.
- 9 Sicrhau bod pob parth cyhoeddus o'r safon uchaf ac yn hygyrch.



Prif nodau'r rhwydwaith werdd



Prif nodau ardaloedd cyhoeddus



### 3.3 CYMYSGEDD O DDEFNYDDIAU, DOSBARTHIAID A MAINT

Mae Glannau Porthcawl mewn safle canolog, gan gysylltu'n uniongyrchol ag ardaloedd sefydledig o ddefnydd masnachol, hamdden, twristiaeth ac amwynder ynghyd â thai ac addysg. Mae'r datblygiad yn rhoi cyfle i asio'r defnyddiau hynny ar draws y safle i adeiladu ar, a gwella enw da Porthcawl fel cyrchfan i dwristiaid, darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer masnach a chyflogaeth tra'n darparu cartrefi newydd o ansawdd uchel, cyfleusterau cymunedol a mannau agored cyhoeddus. Bydd y defnyddiau hyn yn cyfuno â chyfleoedd gwell ar gyfer teithio llesol a gwyrddeu tra'n cydnabod angen parhaus i reoli ceir a thraffig.

Er y gallai rhai ardaloedd o'r datblygiad ganolbwyntio'n fwyaf priodol ar naill ai hamdden neu ddefnydd tai, dylid achub ar gyfleoedd i greu ardaloedd sylweddol o ddefnydd cymysg, gyda phreswyliaeth 24 awr ac amrywiaeth gyfoethog o ofodau llawr gwaelod gweithredol gyda chartrefi uwchben. Mae'r Strategaeth Creu Lleoedd hon yn rhagweld y bydd tua 1100 o gartrefi newydd yn cael eu dosbarthu ar draws y datblygiad mewn amrywiaeth o deipolegau o dai teulu mwy i gartrefi ar ffurf fflatiau.

Bydd maint y gofod masnachol a hamdden yn cael ei yrru yn y pen draw gan hyfywedd tra bod astudiaethau'n awgrymu y gallai defnyddio ffryntiad llawr gwaelod y gyfnewidfa fysiau newydd, ar hyd Stryd y Doc estynedig, Rhodfa Ddwyreiniol a Gorllewin Sandy Bay (Coney Beach gynt) ddarparu 4000 metr sgwâr o ofod ar gyfer ystod eang o ddefnyddiau gan gynnwys caffis, manwerthu lleol, gweithdai a mannau gwerthu crefftiau, canolfannau cymunedol a gwybodaeth, cyfleusterau iechyd ac addysg lloeren, gofod gwaith a rennir, campfa, atyniad i dwristiaid, gofod celf ac oriel, allgymorth amgueddfa.

Gallai De Llyn Halen gynnwys gwesty o ansawdd uchel gyda bwyty, caffi a bar cysylltiedig, atyniadau manwerthu lleol ac atyniadau twristiaeth pellach.

Yn ogystal, bydd y gofod agored cyhoeddus hyblyg yn cynnwys manwerthu dros dro, marchnadoedd, ffeiriau, gwyliau, perfformiadau awyr agored, gweithgareddau hamdden ffurfiol ac anffurfiol.

Dylai datblygiadau newydd fod yn feiddgar, yn ddeniadol ac o ddyluniad cynaliadwy o ansawdd uchel. Rhagwelir y bydd datblygiad ar Lyn Halen a Sandy Bay West (Coney Beach) yn 4 neu 5 llawr gyda'r datblygiad talach yn wynebu allan i'r bae gyda defnydd gweithredol o'r llawr gwaelod. Mae cyfle i ran o ddatblygiad De Llyn Halen fod yn dalach i fod yn esiampl i'r datblygiad sy'n creu argraff, yn enwedig wrth i bobl gyrraedd. Wrth i'r datblygiad ddynesu at ardaloedd o gartrefi traddodiadol a thai teras i'r gogledd a'r dwyrain, bydd uchder datblygiadau newydd yn gostwng i 2 i 3 llawr.

- 

**Oddetu 1100 tai newydd o fath a ddefnydd amryw**
- 

**30% o dai newydd i fod yn fforddiadwy**
- 

**Potential ar gyfer 4000 m<sup>2</sup> o ddefnydd cymunedol a fasnachol o fewn sefyllfa cymysg**
- 

**Potential ar gyfer gwesty newydd**
- 

**Archfarchnad fwyd 1950 m<sup>2</sup> newydd**
- 

**4 x Bay Bus gyda cyrchfan bws a Hwb seiclo**

### 3.3 CYMYSGEDD O DDEFNYDDIAU, DOSBARTHIAID A MAINT

**PRIF STRATEGAETHAU :**

- 1 Creu cymysgedd cyfoethog o ddefnydd a gweithgaredd sydd â hyfywedd hirdymor, gan ddenu trigolion, ymwelwyr a buddsoddwyr newydd. Mae'r defnyddiau hynny'n cynnwys hamdden, masnachol, manwerthu, cymunedol, amwynder a thai.
- 2 Dylai'r cyfuniad o ddefnyddiau preswyl a defnyddiau eraill raddio o'r dwyrain i'r gorllewin ar draws y safle gyda'r prif ddefnydd yn ddefnydd preswyl i'r dwyrain ac yn bennaf hamdden a masnachol i'r gorllewin a chanol y dref.
- 3 Adeiladu ar y datblygiad hamdden llwyddiannus o amgylch y marina a chynyddu'r amrywiaeth o arlwy o ansawdd uchel i drigolion a thwristiaid.
- 4 Ategu cyfleusterau masnachol, hamdden a diwylliannol canol y dref.
- 5 Bydd datblygiad preswyl i'r dwyrain yn cael ei nodweddu'n bennaf gan dai teulu ac i'r gorllewin bydd fflatiau wedi'u lleoli wrth ymyl ac uwchlaw defnyddiau eraill fel masnachol a chymunedol.
- 6 Cyfuno gweithgareddau byw, gweithio a chwarae gartref i gydfodoli'n llwyddiannus a bodloni anghenion ystod eang o bobl.
- 7 Creu lle syfrdanol i fyw gydag ystod eang o gartrefi a deiliadaethau sy'n wirioneddol fforddiadwy.
- 8 Creu mannau hyblyg y gall eu defnydd newid yn y tymor byr, canolig neu hir wrth i'r datblygiad gael ei wireddu.
- 9 Creu gofodau at ddefnydd cymunedol, ar gyfer clybiau, ar gyfer cydweithio, ar gyfer artistiaid a chrefftwyr, ar gyfer perfformio, ar gyfer dathliadau, ar gyfer addysg, ar gyfer entrepreneuriaid, ar gyfer elusennau.
- 10 Galluogi ehangu Ysgol Gynradd Newton.
- 11 Darparu lle a allai gynnwys cyfleusterau gofal iechyd, boed hynny'n feddygfa gofal iechyd sylfaenol amser llawn neu'n gyfleuster lloeren galw heibio.
- 12 Darparu lloches.
- 13 Creu lle sy'n gyffrous, yn flaengar, yn ysbrydoli, yn uchelgeisiol, yn arloesol ac yn gofiadwy.
- 14 Creu'r raddfa o ddatblygiad sydd ei angen i sicrhau ei fod yn hyfyw ac yn gyflawnadwy, yn agored ac yn groesawgar gyda mannau rhagorol ar gyfer amwynder a mynediad i awyr iach a natur.

 Hamddena	 Metro link	 Preswyl	 Cynnig ddatblygiad dyfodol
 Masnachol / Manwerthiant	 Rhwydwaith Werdd	 Ardaloedd Prewsyl gyda lloria masnachol i'r stryd	 Defnydd cyhoeddus allweddol
 Ysgol	 Cyhoeddus	 Meysydd Parcio	



## 3.4 CYNALIADWYEDD

Fel y nodwyd eisoes yn adran 2.6 Argyfwng Hinsawdd, mae angen amlwg i'r datblygiad newydd wneud popeth o fewn ei allu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd a dylai egwyddorion dylunio cynaliadwy, tuag at ddi-garbon ac ynni, dreiddio i bob cynnig datblygu yn y dyfodol.

Dylid achub ar gyfleoedd i fynd i'r afael â hyn nid yn unig yn y ffurf adeiledig a'r adeiladwaith ond hefyd wrth weithio gyda chymunedau'r presennol a'r dyfodol i hwyluso mentrau ar gyfer pyllau cerbydau trydan, llogi e-feiciau, cynlluniau trafnidiaeth gymunedol werdd, defnyddio llafur a chyflenwyr lleol, byd natur a chadwraeth bywyd gwyllt.





## 3.4 CYNALIADWYEDD

### PRIF STRATEGAETHAU:

Ceisio gwthio y tu hwnt i gydymffurfiaeth syml â deddfwriaeth a manteisio ar gyfleoedd i gyflymu newid cadarnhaol tuag at fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd trwy fentrau dylunio a datblygu ynni carbon sero net a di-garbon.

Dyluniadau i ragori ar y safonau cyfredol ar gyfer ynni a charbon ac eithrio tanwyddau ffosil.

Hyrwyddo egwyddorion 'goddefol' dylunio cynaliadwy fel cyfeiriadedd ystyriol i wneud y mwyaf o fanteision solar, insiwleiddio rhagorol a safonau uchel o aerglosrwydd.

Gwneud y defnydd mwyaf dichonadwy o dechnolegau ynni gwyrdd fel pypmiau gwres o'r ddaear, solar a gwynt gyda storfa batri wedi'i hymgorffori. Ystyried defnyddio gwresogi ardal.

Lleihau nifer y lleoedd parcio a ddarperir yn yr ardaloedd datblygu islaw'r safonau presennol er mwyn hyrwyddo teithio mwy llesol a gwyrddach.

Ymgorffori cyfleoedd gwefru cerbydau trydan ym mhob rhan o'r datblygiad.

Gwella llwybrau Teithio Llesol a blaenoriaethu cerddwyr a beicwyr trwy gydol y datblygiad cyfan.

Gwneud y defnydd gorau o ddeunyddiau lleol a deunyddiau wedi'u hailgylchu, lleihau gwastraff a phlastigau.

Dylunio ar gyfer bioamrywiaeth a draeniad cynaliadwy.

Dylunio ar gyfer cymunedau cynaliadwy, mwy cyfartal, cynhwysol.

Dylunio ar gyfer gwell cydbwysedd bywyd a mwy o lesiant.

Sicrhau bod y datblygiad yn hygyrch yn gorfforol, yn gymdeithasol ac yn economaidd.







## 4.0 ARDALOEDD DDATBYGIEDIG Y DYFODOL

## 4.0 TROSOLWG

Mae chwe phrif ardal i'w datblygu yn y dyfodol wedi'u nodi. Gall pob ardal gynnwys sawl is-ardal sy'n cynrychioli cyfleoedd datblygu ynddynt eu hunain, y mae rhai ohonynt eisoes wedi ymrwymo iddynt neu ar y gweill. Mae gan y diagram gyferbyn fylchau rhwng yr ardaloedd er eglurder, fel ar hyd Stryd y Doc estynedig neu'r ffordd fynediad i'r siop fwyd newydd. Yn ymarferol, bydd angen darparu'r ardaloedd hyn o briffyrdd neu dir cyhoeddus newydd neu wedi'u gwella fel rhan o ddatblygiad cyfagos, pa un bynnag ddaw gyntaf.

Mae'r adrannau a ganlyn yn nodi'r meini prawf allweddol a'r argymhellion ar gyfer pob ardal, ond nid ydynt yn cynnwys briff datblygu manwl neu god dylunio. Rhagwelir y bydd briffiau datblygu unigol yn cael eu creu yn ymgorffori'r egwyddorion a'r strategaethau yn y ddogfen Creu Lleoedd hon.

Mae tri safle, y tu allan i ardal y Glannau ei hun, hefyd wedi'u nodi fel ardaloedd posibl i'w gwella yn y dyfodol gan gynnwys; A - Y Sgwâr, B - Canolfan Gymunedol Awel y Môr a C - Gorsaf yr Heddlu.

Mae'r tudalennau canlynol yn dechrau gydag ystyriaeth bellach o'r seilwaith tir trefol a'r coridor gwyrdd sydd wedi'i wau ledled y safle cyfan, ac sy'n clymu ardaloedd ar gyfer eu datblygu yn y dyfodol ynghyd.



## 4.1 SEILWAITH TIR TREFOL A'R CORIDOR GWYRDD

Mae creu mannau agored cyhoeddus sylweddol o ansawdd uchel, sy'n ymgorffori tirwedd galed a meddal yn hanfodol i lwyddiant datblygiad Glannau Porthcawl yn y dyfodol, ac yn ganolog i'r Strategaeth Creu Lleuedd hon.

Mae'r tudalennau canlynol yn nodi dwy brif elfen y man agored cyhoeddus arfaethedig:

Cyfres o fannau agored cyhoeddus mawr, rhyng-gysylltiedig a leolir ar draws yr ardal ddatblygu Orllewinol, sydd ag wyneb caled yn bennaf gyda thirwedd werdd ynddynt.

Cyfres o fannau agored cyhoeddus mawr, rhyng-gysylltiedig wedi'u lleoli ar draws yr ardal ddatblygu Ddwyreiniol, sydd wedi'u tirwedu'n feddal yn bennaf gyda llwybrau wyneb caled ynddynt.


Mae'r ddwy brif elfen hon hefyd yn cysylltu â'i gilydd, yn enwedig ar 'gilfach' yr ardal ddatblygu o amgylch Parc Griffin a hen Coney Beach.

Nid oes penderfyniad eto a fydd y prif elfennau hyn yn cael eu darparu fel 'seilwaith' mewn dull gwaith galluogi neu fesul adran fel rhan annatod o ardaloedd datblygu unigol. Yn yr achos olaf, bydd yn bwysig cael dyluniad cyffredinol i sicrhau cysondeb o ran ansawdd a dull gweithredu.

Mae'r delweddau gyferbyn yn dangos strategaeth ar gyfer creu tir trefol o ansawdd uchel sy'n cynnwys estyniad i Stryd y Doc tuag at y Rhodfa Ddwyreiniol, ardal Piazza newydd sy'n gysylltiedig â datblygiad ar De Llyn Halen, ardal Plaza newydd sy'n gysylltiedig â man cyrraedd newydd Metro Bus Link a Sgwâr Cyhoeddus sylweddol 14,000 metr sgwâr wedi'i leoli ar hyd y Rhodfa Ddwyreiniol ac yn rhedeg o Stryd y Doc i Coney Beach.


Er y bydd angen i rai o'r ardaloedd hyn gynnwys mynediad cyfyngedig ac achlysurol i wasanaethau, maent yn y bôn yn fannau cyhoeddus i gerddwyr a beicwyr ac wedi'u cynllunio i gynnwys ystod eang o weithgareddau a digwyddiadau awyr agored. Darperir sylwebaeth bellach ynglŷn â defnyddiau yn yr adrannau Ardal Datblygu a ganlyn yn y ddogfen hon.

Datgelodd ymgynghoriad cyhoeddus awydd cyffredin i ddeall maint y mannau agored arfaethedig ac felly mae t31 yn dangos y Sgwâr Cyhoeddus a'r Piazza ochr yn ochr â mannau lleol cyfarwydd eraill gan gynnwys y Basn Hirgrwn ym Mae Caerdydd, ac ardaloedd y glannau yn y Barri ac Aberafan. Mae cyfeirio at y mannau presennol hyn, sy'n cynnal ystod eang o weithgareddau ac amwynderau hamdden awyr agored parhaol a dros dro, yn rhoi cyfle i ragweld y posibilïadau ar gyfer Glannau Porthcawl.




# 4.1 SEILWAITH TIR TREFOL A'R CORIDOR GWYRDD


2 X CAE CHWARAE



BASN HIRGRWN BAE CAERDYDD



ARDAL AGORED ARFAETHEDIG



YNYS Y BARRI



TRAETH ABERAVON




## 4.1 SEILWAITH TIR TREFOL A'R CORIDOR GWYRDD

Mae'r ail brif elfen o fewn y strategaeth manau agored cyhoeddus yn rhedeg o Barc Griffin i'r Twyni Relic, sy'n cynnwys cyfres o fannau agored rhyng-gysylltiedig sydd yn bennaf yn dirwedd feddal a 'gwyrdd'.

Nid yw'r cysylltiad hwn o fannau gwyrdd yn bodoli ar hyn o bryd gan fod ffair bleser Coney Beach sy'n eistedd ar lwyfandir uwchben Parc Griffin yn torri ar ei draws. Y bwriad yw lleihau rhai o'r lefelau hyn er mwyn caniatáu i gysylltiad redeg o'r gorllewin i'r dwyrain drwy'r holl ardal ddatblygu Ddwyreiniol. Tra hefyd yn galluogi cerbydau i basio o New Road i ardaloedd datblygu Sandy Bay, mae'r coridor hwn wedi'i gynllunio ar gyfer cerddwyr a beicwyr ac i hyrwyddo Teithio Llesol ymhellach.

Mae'r coridor gwyrdd hwn yn gwneud defnydd da o'r seilwaith gwyrdd presennol a'r dirwedd feddal a bydd yn darparu ar gyfer ystod eang o weithgareddau hamdden awyr agored. Mae sylwebaeth bellach ar y defnyddiau posibl hyn i'w gweld dros y tudalennau canlynol sy'n disgrifio pob ardal i'w datblygu yn y dyfodol.





# 4.1 SEILWAITH TIR TREFOL A'R CORIDOR GWYRDD

## CYNSAIL ARDALOEDD AGORED



## 4.2 DE LLYN HALEN

Wedi'i ragweld yn bennaf ar gyfer defnydd Hamdden fel estyniad naturiol i'r harbwr, Adeiladau Jennings, Cosy Corner a'r marina, mae'r safle'n cysylltu'r ardaloedd hynny ag estyniad i gerddwyr a beicwyr yn Stryd y Doc sy'n arwain yn uniongyrchol i ganol y dref a hefyd i'r Rhodfa Ddwyreiniol.

Tra bydd rhai cerbydau'n cael eu caniatáu rhwng y safle a'r marina, yn arbennig i alluogi codi cychod i mewn ac allan, ac ar hyd y Rhodfa Ddwyreiniol, bydd hyn yn cael ei gyfyngu ar gyfer mynediad a gwasanaethu hanfodol a bydd tair ochr y safle i bob pwrpas ar gyfer cerddwyr yn unig. Bydd Portway yn parhau fel prif lwybr i gerbydau gan ddarparu cyfleoedd gwasanaethu tra'n cydnabod bod ansawdd y ffryntiad hwn yn parhau i fod yn bwysig.

Mae cornel ogledd-orllewinol y safle yn amlwg wrth gyrraedd y gyfnewidfa fysiau newydd, cerdded neu feicio o ganol y dref neu ar droed, ar ôl parcio yn yr MSCP newydd ar Hillsboro. Dylid cydnabod hyn yn y dull dylunio ac mae cyfle i greu nodwedd dalach yn y lleoliad hwn.


Dylai'r datblygiad fanteisio ar y golygfeydd deheuol a dwyreiniol gyda golygfeydd gwych allan ar draws y bae a'r sianel. Dylid achub ar gyfleoedd i ddarparu gofod sy'n hygyrch i'r cyhoedd mewn man uwch i gyfoethogi'r profiad hwn.

Dylai'r datblygiad ddarparu ardal ystyrion o dir cyhoeddus i'r de a'r dwyrain sydd â theimlad piazza agored, yn hytrach na choridor teithio er y bydd yn cynnwys llwybr teithio llesol a llwybr yr arfordir.









Dylai'r ardal hon o dir cyhoeddus fod o'r ansawdd dinesig uchaf ac mae cyfle amlwg i gynnwys celf gyhoeddus a mannau eraill gyda nodweddion dŵr neu ffynhonnau. Dylai'r parth cyhoeddus gynnig lleoedd i eistedd, cyfarfod ac ymlacio a gallai gynnwys gofod perfformio allanol.


Dylai fod bywiogrwydd i'r datblygiad trwy ddefnyddio'r llawr gwaelod yn weithredol, fel caffis a all orlifo gyda mannau eistedd allanol o dan gysgodfannau a chanopiâu.

Byddai angen parcio dan ddaear neu ddarparu ar gyfer parcio drwy'r MSCP newydd sy'n agos iawn.



## 4.2 DE LLYN HALEN

-  manteisio ar yr haul ar golygfeydd
-  Cornel Allweddol - Adeilad i gyfeirio a chreu perthynas gyda'r estyniad i Styd y Doc ar chyffordd bws newydd i'r Maes.
-  Ardaloedd cyhoeddus i gysylltu'r ddatblygiad gyda'r Marina
-  Mur estynedig, perthnasol i stryd y Doc a i'r Rhodfa Dwyreiniol. Gyda ffin deinamig ar y llawr gwaelod
-  Mur i'r Portway i gynnwys mynediadau gwasanaethol
-  Mynediad gwasanaethol arfaethedig
-  Cyfle ar gyfer teras cyhoeddus ar y To
-  Mynediad i gychod a trailers



## 4.3 CANOL LLYN HALEN

Mae'r Strategaeth hon yn rhagweld datblygiad defnydd cymysg i'r gogledd ac i'r gorllewin o'r safle gan greu man agored cyhoeddus hael ar hyd Stryd y Doc estynedig ac yn arbennig ar hyd y Rhodfa Ddwyreiniol. Bydd y gofod olaf hwn, tua 68m o led o'r morglawdd i'r ffryntiad newydd a thua 300m o hyd, yn cynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau hamdden awyr agored, yn rhannol barhaol, yn rhannol dros dro eu natur. Gall gweithgareddau gynnwys marchnadoedd, ffeiriau, arddangosfeydd a gwyliau, manwerthu dros dro, perfformiadau, sinema awyr agored, golff mini, stondinau ffair a reidiau. Cynhwysir cymhariaeth o ran maint â manau agored eraill yn y rhanbarth yn Adran 4.1.

Bydd y man agored hwn hefyd yn cynnwys llwybr teithio llesol a llwybr yr arfordir tra'n galluogi mynediad cyfyngedig i gerbydau ar gyfer gwasanaethau hanfodol. Trwy greu arwyneb a rennir o ansawdd uchel, gellir gwneud y mwyaf o hyblygrwydd defnydd yn y dyfodol. Bydd coed a phlanhigion yn cael eu hymgorffori heb beryglu hyblygrwydd. Dylid ymgorffori darpariaeth tanddaearol ar gyfer cysylltiad pŵer a draenio dros dro. Mae cyfleoedd pellach ar gyfer gwaith celf, llwybrau addysgol a ffitrwydd neu arteffactau amgueddfa awyr agored.

Mae'r safle'n cynnwys cyfnewidfa fysiau newydd, y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr eisoes wedi'i dylunio ac yn mynd i'w darparu'n uniongyrchol. Y dull gweithredu yw darparu cyfnewidfa fysiau llinol syml oddi ar Portway gyda lloches gaeedig barhaus. Mae hyn yn darparu pwynt cyrraedd pwysig ar fws, gan greu ardal o fannau agored cyhoeddus neu blaza a fydd yn caniatáu i gyfleusterau cymunedol eraill gael eu lleoli fel llogi e-feiciau, gwybodaeth i dwristiaid, gwasanaethau cyhoeddus galw heibio posibl, llyfrgell bosibl, manau iechyd a dysgu a chaffi.

